egroeso
bwletin electronig gan **Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru**

RHIFYN 21

Ymgyrch golff newydd yn taro'r nod

llun: eyeimagery

TOURISM PARTNERSHIP North Wales

PARTNERIAETH TWRISTIAETH Gogledd Cymru

01745 589020
www.tpnw.org

allan

tudalen nesaf

adventure

attractions

short breaks

gardens

golf

moviemap

walking

walled towns

giants

events

ambassadors

Ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by Welsh Assembly Government

Ymgyrch golff newydd yn taro'r nod

Mae clybiau golff ledled Gogledd Cymru yn manteisio ar "lwyddiant aruthrol" gwasanaeth archebu ar-lein newydd.

Mae penderfyniad Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru i ganolbwyntio ei hymdrechion marchnata ar y rhyngrwyd yn talu ar ei ganfed.

O ganlyniad, bu cynnydd enfawr mewn archebion ar-lein sydd wedi cynhyrchu bron i £500,000 mewn ffioedd grîn yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Wrth wraidd llwyddiant yr ymgyrch mae'r wefan www.golf-northwales.co.uk a grëwyd gan y cwmni amser tïo blaenllaw, BRS, ac sy'n cael ei rhedeg ganddo.

Yn y darlun, o'r chwith, David Ames, y Golffiwr Proffesiynol yng Nghlwb Golff Prestatyn; Carole Startin Swyddog Marchnata Gweithredol, Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru; David Ame, Llywydd Clwb Golff Prestatyn; Roger Lewis, Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, a Nick Kitchen, Clwb Golff Gogledd Cymru.

Yn ogystal ag archebu ar-lein gall cwsmeriaid weld lluniau o'r gwahanol gyrsiau golff ynghyd â manylion am gynigion arbennig a llety cyfagos.

Hyd yn hyn, mae 19 o glybiau ar draws y rhanbarth wedi ymuno â'r cynllun ac mae mwy yn ymuno drwy'r amser.

Yn ôl y Bartneriaeth Twristiaeth, mae hefyd wedi gallu manteisio ar y cynnydd mewn diddordeb a grëwyd yn sgil pencampwriaeth Cwpan Ryder sy'n cael ei chynnal yn y Celtic Manor, Casnewydd, yn nes ymlaen eleni.

Ar ôl y Gemau Olympaidd a Chwpan y Byd, dyma'r trydydd digwyddiad o ran maint yng nghalendr chwaraeon y byd.

Mae Carole Startin, Swyddog Marchnata Gweithredol y Bartneriaeth Twristiaeth, wrth ei bodd fod y gwasanaeth archebu yn profi i fod yn gymaint o lwyddiant.

Meddai: "Mae'n llwyddiant anhygoel. Bellach mae'r clybiau wedi sicrhau 6,687 o archebion sydd wedi denu 19,426 o olffwyr i Ogledd Cymru.

"Maen nhw wedi cynhyrchu £468,351 mewn refeniw amser tïo - ond nid yw'r ffigwr yna'n adlewyrchu'r arian y mae'r golffwyr hefyd yn ei wario ar bethau fel llety, petrol, bwyd a diod ac eitemau eraill, yn ystod eu harhosiad.

"O Ganolbarth a Gogledd Orllewin Lloegr, sef ein prif ardal darged, y daw'r mwyafrif o'r golffwyr sy'n dod i Ogledd Cymru.

"Mae'n galondid fod Cwpan Ryder wedi creu llawer iawn o ddiddordeb yr ochr draw i'r Iwerydd, yn Unol Daleithiau America.

"Mae mwy a mwy o olffwyr Americanaidd yn darganfod ein cyrsiau rhagorol yma yng Nghymru.

"Bu ein penderfyniad i ganolbwyntio ein hymdrechion ar-lein yn hynod o bwysig. Mae'r gallu i archebu ar-lein bob awr o'r dydd a'r nos yn hollbwysig.

"Mae'r system yn galluogi pobl i archebu lle ar hyd at chwe chwrs ar y tro, felly gallwch drefnu wythnos gyfan o chwarae golff gyda'i gilydd.

"Rydym hefyd yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn Croeso Cymru i gynyddu ein hymdrechion marchnata mewn ffordd gydgysylltiedig a chyfleu ein neges i'r byd.

"Yn ogystal â hynny, rydym yn cynnal cystadleuaeth fawr yr haf yma i un person ennill taleb 4-pêl ym mhob un o'n 30 prif glwb.

"Mae hyn yn cysylltu â phencampwriaethau proffesiynol yr haf Cwpan Ryder yng Nghymru, a gynhelir yng Nghonwy a Harlech.

"Rwy'n meddwl fod hon yn flwyddyn allweddol i ni. Rhaid i ni fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n dod yn sgil Cwpan Ryder a chynnal y momentwm ar ôl hynny.

"Mae gennym gyrsiau ardderchog yma yng Ngogledd Cymru, yn gyrsiau parcdir a chyrsiau ar y twyni.

"Maen nhw'n cynnig gwerth gwych am arian - mae rhai o'n hamseroedd tïo yn cynnig y gwerth gorau yn Ewrop - felly mae gennym gynnyrch golff gwerth chweil i'w gynnig.

"Ymrwymiad y clybiau i dwristiaeth golff a'n partneriaeth gydag awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am lwyddiant y cynllun yma."

Am fwy o wybodaeth ewch i:
www.golf-northwales.co.uk
neu ffoniwch 0845 450 5885.